

Trwy ebost

29/08/17

## Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru i BGC Wrecsam

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a swyddogion cynorthwyol,

Diolch am ofyn am fy nghyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'r amcanion llesiant drafft fel y maent ar hyn o bryd, sef:

- Plant a Phobl Ifanc yn cael cychwyn iach mewn bywyd:
  - Plant a phobl ifanc yn cael iechyd meddwl cadarnhaol a mynediad i wasanaethau ac/neu gymorth pan fyddant ei angen;
  - Rhieni a phlant a phobl ifanc yn medru gwneud dewisiadau iach.
- Pobl yn cael y cyfle i ddysgu a datblygu drwy gydol eu bywydau:
  - Lefelau cyrhaeddiad i blant a phobl ifanc yn cael eu gwella;
  - Cymorth priodol i fod ar gael i alluogi pobl i gyrchu cyfleoedd dysgu.

Drwy siarad yn aml â chi, a chwrdd â rhai ohonoch chi'r wythnos ddiwethaf mae fy nhîm wedi ennill dealltwriaeth o'r ffordd yr ydych yn gweithio gyda'ch gilydd fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), y dull yr ydych wedi ei fabwysiadu ar gyfer cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion a chymryd camau mewn dull gwahanol. Fel y byddant eisoes wedi ei drafod gyda chi, roeddwn yn awyddus i fy nghyngor fod yn ddefnyddiol i chi, a'r cyddestun yr ydych yn gweithio o'i fewn, felly gobeithio eich bod yn teimlo bod y cysylltu hwn wedi bod o fudd i chi a'i fod wedi rhoi rhyw arweiniad i chi ar hyd y ffordd.

Roeddwn hefyd yn dymuno i fy ymateb i'ch asesiad llesiant fod yn un sy'n edrych i'r dyfodol yn hytrach nag edrych yn ôl, i'ch helpu i ystyried sut i fynd ati i asesu'n barhaus a chynllunio llesiant. Yn ddiweddar cyhoeddais ['Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw ar gyfer gwell yfory'](#) sy'n amlgu canfyddiadau allweddol ac argymhellion ar gyfer BGCau ar feysydd allweddol lle mae angen newid ar gyfer gwneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwyf yn defnyddio'r adroddiadau hyn ar gyfer darparu fy nghyngor i chi.

Fel y gwyddoch, wrth bennu amcanion drafft a chymryd camau i'w diwallu, rhaid i FGCau ddefnyddio'r pum dull o weithio i herio busnes-fel-arfer a mocsimeiddio eu cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol. Bwriad fy nghyngor yw eich helpu i ystyried sut y gallech wneud hyn yn effeithiol a sut y gallech ddangos drwy eich cynllun llesiant eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio i lunio eich camau.

Felly, mae fy nghyngor i chi'n ymwneud â mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio ac yn benodol â'r pynciau yr ydych wedi eu nodi yn yr asesiad fel rhai i ganolbwyntio arnynt, ynghyd ag ymroi i gysylltu ag eraill a allai eich helpu. Fel yr eglurodd fy nhîm, nid rhoi fy marn ar eich amcanion llesiant yw pwrpas y cyngor hwn. Mae'r rhain i'w penderfynu a'u perchenogi gennych chi, fel BGC cydweithredol.

### **Mabwysiadu gwahanol ddulliau o weithio i gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:**

Ar gyfer pob un o'ch camau a'ch amcanion drafft, hoffwn ddeall beth a olyga hyn i Wrecsam a sut mae hyn yn wahanol i'r hyn yr ydych wedi ei wneud yn y gorffennol. Mae gwireddu uchelgeisiau'r Ddeddf hon yn ymwneud â 'beth', a 'sut' h.y. beth ydych chi'n ei wneud i gyfrannu at ein cydweledigaeth o'r saith nod llesiant cenedlaethol, sy'n cydnabod bod datblygu cynaliadwy yn cysylltu'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddo, yr economi yr ydym yn gweithio ynddo, y gymdeithas yr ydym yn ei mwynhau a'r diwylliannau yr ydym yn eu rhannu â phobl ac ansawdd eu bywyd? Sut ydych chi'n defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i lunio eich gweithgareddau ar gyfer Wrecsam?

Nid busnes-fel-arfer yw pennu amcanion a chmau. Rydym wedi pennu themâu a blaenoriaethau, p'run bynnag, yn y gorffennol, ac eisoes wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos beth yr ydym yn ei wneud. Ond hyd yn oed yn awr, er gwaethaf y ffaith bod y dystiolaeth yn yr asesiadau'n dangos ystod o dueddiadau brawychus, ymddengys bod BGCau yn ymgysylltu'n unig â thiriogaeth ddiogel nad yw'n ennyn dadl. I addasu eich dulliau o weithio mae'n ofynnol i chi fabwysiadu ymagwedd gwbl wahanol ac mae angen i chi roi amser a gofod i chi eich hunain i gwestiynu a yw'r ymagweddau presennol tuag at gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol ac archwilio pwysau allweddol a thensiynau sy'n codi wrth gyflawni pob un o'ch amcanion.

Yn ymarferol buaswn yn awgrymu bod angen i chi, ar gyfer eich dau amcan drafft, barhau i ddefnyddio cyfarfodydd BGC neu drefnu sesiynau i edrych ar y pum dull o weithio isod a chael trafodaeth onest am y tensiynau rhwng y materion polisi ac arfer presennol o fewn eich sefydliadau mewn perthynas â phob un o'r amcanion. Dylai hyn wedyn sbarduno eich trafodaethau ar sut y gallwch fabwysiadu ymagweddau newydd gyda'ch gilydd tuag at y camau y byddwch yn eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion a magsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol.

### **Rwyf o'r farn bod angen i chi ddangos sut mae eich BGC wedi ystyried y canlynol mewn perthynas â phob un o'ch amcanion:**

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol ar gyfer y mater hwn? Oes yna fylchau ar hyn o bryd yn eich data neu eich dealltwriaeth? Beth sydd angen ei weld ymlaen llaw neu pa wybodaeth am dueddiadau yn y dyfodol sydd eu hangen arnoch i ddeall y mater hwn yn well? Pa allu, hyder ac arbenigedd sydd gennych i lenwi'r bylchau mewn gwybodaeth? I drwytho eich gweithgareddau, bydd angen i chi fapio ac ystyried tueddiadau'r dyfodol ar gyfer pob un o'ch amcanion. Mae fy swyddfa yn gweithio gydag eraill i adeiladu gallu yn y maes hwn, ac fel y gŵyr eich tîm cynorthwyol, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ychwanegu at adnoddau'r adroddiad 'Tueddiadau'r

Dyfodol', y dylech fod yn gwneud y defnydd mwyaf posibl ohono drwy gyrchu Objective Connect neu drwy gysylltu â David Thomas.

- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych yn ceisio ei atal? Beth sydd wrth wraidd y mater a phryd fyddai'r amser gorau i ymyrryd? Ydych chi'n glir am ba fath o atal sydd ei angen: atal sylfaenol h.y. ceisio atal rhywbeth rhag digwydd; atal eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu atal trydyddol h.y. lliniaru effaith rhywbeth â ganddo effeithiau parhaus. Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed feicio (atal sylfaenol, sef atal niwed i'r pen cyn iddo ddigwydd); gosod rhywun yn yr ystum adferol os yr ydynt wedi syrthio oddi ar eu beic (atal eilaidd, sef atal niwed rhag gwaethygu) a chwmsela yn dilyn y ddamwain (atal trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

Mae llawer o FGCau heb ddefnyddio'u hasesiadau i ddeall yn llwyr y sefyllfa bresennol a hefyd raddfa a natur yr ymateb sy'n ofynnol. Er bod eich asesiad wedi archwilio atal mewn perthynas â blynyddoedd cynnar a'r amgylchedd, rwyf yn awyddus i weld pob BGC yn archwilio sut y maent yn chwalo cylchoedd ac yn twrio'n ddyfnach i ddata i weld y negeseuon clir yn y data i ddeall yn well effeithiau ac achos materion allweddol a thueddiadau i drwytho eich camau.

Mae yna negeseuon pendant yn y data ag arnynt angen rhagor o ymchwil a gwell dealltwriaeth o achosion ac effeithiau materion allweddol a thueddiadau i drwytho eich camau.

- **Cydweithio:** Mae'n bwysig fod pobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn medru dwyn gyda hwynt i'r BGC yr ystod orau o fewnwelediadau, heriau adeiladol, data a datrysiadau. A yw'r bobl iawn gennych o gwmpas y bwrdd, ar y lefel iawn ar gyfer gwneud penderfyniadau am y mater hwn? Pwy arall allai fod angen i chi gydweithio gyda hwynt i'ch helpu i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, mae hwn yn amser da i adolygu aelodaeth wahoddedig y BGC ac ystyried pwy yw'r bobl 'anarferol' y gall y bydd angen i chi weithio gyda hwynt i gymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn?

Wrth gyflawni'r camau, sut allai eich sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen i chi eu cymryd gyda'ch gilydd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys cyd-leoli staff, chwalo strwythurau traddodiadol, trefnu cyfnewid swyddi a secondiadau, a byddai crynhoi adnoddau yn gam pwysig. Byddaf yn awyddus i weld sut yr ydych wedi ystyried y manteision hyn a sut y bydd y camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd yn eich symud tuag at gyflawni'r cydweithio hwn.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o'r arfer o ddim ond gwneud rhywbeth sy'n cwrdd â'r amcan, ac yn hytrach, ddangos eich bod yn cymryd camau sy'n maxsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau? Yn hytrach nag edrych ar y mater mewn dull traddodiadol, cyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau i ehangu eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater a'r cyfleoedd a allai fod ar gael ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch amcanion?

Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad a wneir gan eich sefydliad ar hyn o bryd i'r amcan hwn? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad sydd angen i chi ei wneud i ddwyn yr amcan hwn yn ei flaen? Sut fedrwch chi gynllunio'r hyn sy'n digwydd mewn manau eraill yn eich sefydliadau, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel rhanbarthol neu genedlaethol, i gysylltu ag eraill wrth gyflawni'r amcan hwn? Wrth wneud hyn, pa rwystrau neu densiynau eraill sydd wedi codi a pha gamau fedrwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w dileu? Pwy arall sydd eu hangen o gwmpas bwrdd y BGC i'ch helpu i gydgyssylltu'r broses o wneud penderfyniadau a gwella llesiant ar gyfer y mater hwn?

- **Ymgyfraniad:** Sut ydych chi'n mynd i ddangos y modd yr ydych wedi ennyn ymgyfraniad cymunedau wrth ddiffinio'r heriau a'r cyfleoedd wrth gwrdd â'r amcan hwn? Sut ydych chi'n cymryd camau i ddeall profiadau bywyd pobl yn eich ardal a sut mae hyn yn llunio eich gweithgareddau? Sut ydych chi'n gweithredu i ddod o hyd i well dulliau o ennyn ymgyfraniad pobl yn y broses benderfynu? Sut fedrwch chi gydweithio gydag aelodau o'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Megis gyda Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru pa ddewisiadau sydd yna ar gyfer ennyn ymgyfraniad pobl â phrofiadau bywyd ar Fyrddau a grwpiau partneriaeth?

Dylai'r cyngor hwn gael ei dderbyn gan bob BGC, ond rwyf yn gwerthfawrogi bod pob BGC wedi mabwysiadu dulliau gwahanol o ddrafftio'u hamcanion llesiant. Mae eich tîm cynorthwyol wedi gweithio'n galed i'ch helpu i benderfynu ar eich amcanion drafft o'r 65 thema gychwynnol a'r 15 blaenoriaeth ddilynol o'ch asesiad llesiant. Cefais fy nghalonogi i glywed eich bod yn ystyried bod eich proses wedi ei harwain gan ymgynghori, gyda phobl Wrecsam yn rhoi mandad clir i chi i dalu sylw i'r ddau amcan drafft hyn. Clywaf fod yr ymarfer blaenoriaethu hyn wedi rhoi cyfle i chi ddeall cymhellion eich gilydd, i herio eich gilydd ac i anghytuno! Ond, credaf fod y sgysiaiu anodd hyn i'w hannog ar lefel BGC os yr ydym i wireddu'r newid trawsffurfiol yr ydym yn dymuno ei weld.

Bwriad y pum dull o weithio yw eich helpu wrth i chi herio eich gilydd, gan gwestiynu a yw'r gwasanaethau presennol yn addas ar gyfer cyflawni eich amcanion drafft a gweld persbectif pobl arall. Hoffwn weld y sgysiaiu heriol hyn yn parhau wrth i chi bennu camau a chynllun. Mae'n wir i mi sylwi bod y templed a gynhyrchwyd i flaenoriaethu amcanion yn defnyddio'r pum dull o weithio, ond mae'r meini prawf sgorio a ddefnyddiwyd yn gosod effaith ataliol ar lefel is wrth ymdrin ag integreiddio a'r hirdymor. Wrth i chi ymroi i ddatblygu a chyflawni camau ar gyfer cwrdd â'ch amcanion, rwyf yn eich cynghori i ystyried y pum dull o weithio fel rhai sydd yr un mor bwysig ymhob achos, a'ch bod yn defnyddio'r cwestiynau uchod i herio eich hunain i weithio'n wahanol. Nid yw'r dulliau o weithio yn themâu trawsbynciol; ymddygiadau ydynt i'ch helpu i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant.

Rwyf yn falch i glywed bod yr ymagwedd yr ydych wedi ei mabwysiadu yn Wrecsam wedi ei bwriadu i adeiladu cyd-ddealltwriaeth a pharch tuag at broffesiynau eich gilydd. Fel yr awgrymwyd yn fy adroddiad ar yr asesiadau llesiant, mae'n bwysig nad ydym yn parhau i weld BGCau fel pwyllgor sy'n cael ei arwain gan awdurdod lleol, ond fel cyfle i gyflwyno gwasanaethau sydd wedi eu gwreiddio yn realiti bywyd pobl ac a fydd yn fanteisiol i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Gall Cadeirydd y BGC yn rhinwedd ei swydd; sut a ble mae cyfarfodydd yn cael eu cynnal a sut mae'r BGC yn cael ei gynorthwyo, newid ffyrdd o feddwl. Dylai eich arweinyddiaeth yn y BGC fod yn treiddio

i sefydliadau sy'n aelodau ar bob lefel a sylwais, lle mae uwch arweinyddion wedi ymrwymo'n gynnar i roi eu cymorth, a phan fydd yn aml-asiantaeth, bod hyn yn galluogi gwell adnoddau i'r BGC ac, yn anochel, yn caniatáu integreiddio haws rhwng sefydliadau, adrannau a materion. Er mwyn perchenogi'r cynllun hwn o ddifri a sicrhau bod y camau yr ydych yn eu cymryd yn cael eu deall a'u hysgwyddo gan gyrff sy'n aelodau o'r BGC, efallai y buasech yn ystyried trefnu i weithio'n agosach fel tîm aml-asiantaeth rhithwir, gydag uwch arweinydd neu secondiadau mwy ffurfiol, a chyd-leoli. Rwyf yn ymwybodol eich bod yn ystyried pa ddatblygiadau cyfundrefnol a allai fod eu hangen ar y BGC. Efallai y byddwch yn dymuno trafod hyn gydag ardaloedd BGC eraill, megis Torfaen, sy'n ystyried pa ymagweddau tuag at ddatblygu cyfundrefnol a allai eu helpu hwy. Mae nifer o adnoddau ar gael hefyd, megis adroddiad [Scottish Insights](#) a gwaith gan [Fforwm y Dyfodol](#).

Mae'n dda i weld eich bod wedi parhau i ymgysylltu â phobl wrth i chi ddatblygu eich amcanion drafft ac adeiladu ar y gwaith drwy 'Y Wrecsam a Garem'. Fel y nodir uchod, gall ennyn ymgyfraniad ystod o bobl o gefndiroedd gwahanol eich helpu i ehangu ein dealltwriaeth o fater a rhoi syniadau i ni am beth i wneud. Clywaf eich bod wedi gweithio'n galed i drefnu gwahanol gyfleoedd a lefelau ymgysylltu a buaswn yn eich annog i barhau i ennyn ymgyfraniad 'pobl anarferol' i ennill darlun llawer cyfoethocach o'r camau effeithiol y gallwch eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion drafft. Bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i chi, pobl mewn rôl arweinyddiaeth, i chwarae eich rhan a bod yn ddewr wrth sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen. Gobeithiaf y byddwch yn parhau i arwain ymagwedd seiliedig ar wybodaeth wrth ddod o hyd i atebion gwahanol i'r modd yr oedd pethau'n arfer cael eu gwneud.

### ***Cyngor ar sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:***

Wrth ddatblygu eich amcanion drafft o'r pymtheg blaenoriaeth cychwynnol, gwnaethoch edrych ar y berthynas rhwng y blaenoriaethau â thair thema: newid hinsawdd, cydraddoldeb a chydlyniad. Efallai y byddai adeiladu ar y gwaith hwn, yn benodol ar gyfer y ddau amcan drafft a nodwyd, gan ddefnyddio'r diffiniadau o'r saith nod llesiant, yn eich helpu i archwilio sut y gallwch facsimeiddio eich cyfraniad i bob un o'r nodau. Ar hyn o bryd, nid ydych yn egluro pam yr ydych wedi talu sylw i rai pethau yn y ddogfen ar themâu 'trawsbynciol' a ddefnyddiwyd yn y broses flaenoriaethu. Os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, awgrymaf eich bod yn gwneud hyn yn fwy clir yn eich cynllun llesiant e.e. wrth roi i blant a phobl ifanc gychwyn da mewn bywyd, pam ei bod yn bwysig, ar gyfer eu ffyniant, i sicrhau bod amodau amgylcheddol yn eu lle? Sut fedrai hyn fod yn weithred ataliol? Pa effeithiau hirdymor ydych chi'n ceisio eu lleddfu? Gallai defnyddio'r pum dull o weithio i esbonio hyn eich helpu i egluro'r camau y byddwch yn eu dewis.

### **[Rhoi i blant a phobl ifanc gychwyn iach mewn bywyd](#)**

- **[Rhoi i blant a phobl ifanc iechyd meddwl cadarnhaol a mynediad i wasanaethau/neu gymorth pan fyddant ei angen;](#)**
- **[Sicrhau bod rhieni a phlant a phobl ifanc yn medru gwneud dewisiadau iach.](#)**

I bob un o'ch amcanion drafft a'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd, buaswn yn eich cyngori i fod yn glir am beth a olyga hyn i Wrecsam yn eich cynllunio llesiant. Pa dystiolaeth leol ydych chi wedi ei defnyddio (neu y

byddwch yn ei defnyddio) i ddeall meysydd penodol ymyriadau ataliol llwyddiannus yn Wrecsam? Pa wasanaethau lleol fydd yn cael eu heffeithio os byddwch yn ailgyfeirio buddsoddiad i 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn? Sut y gallai mabwysiadu ymagwedd wybodus tuag at brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod effeithio mewn gwirionedd ar eich sefydliadau?

Mae atal yn amlwg yn ganolog i'r amcan drafft hwn ac mae hyn yn cychwyn gyda dealltwriaeth eich sefydliadau o effeithiau hirdymor sy'n deillio o gael y cychwyn gwaethaf mewn bywyd. Mae costau hyn yn enfawr, i fywyd yr unigolyn ac i wasanaethau cyhoeddus. Amcangyfrifir y bydd gwasanaethau ymyrraeth hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17 biliwn y flwyddyn i Gymru a Lloegr (£6 biliwn ar amddiffyn a diogelu plant, £5.2 biliwn ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7 biliwn ar anweithgarwch economaidd pobl ifanc, £680 miliwn ar absenoldebau a gwaharddiadau o'r ysgol, £610 miliwn ar anafiadau i blant a phroblemau iechyd meddwl, a £450 miliwn ar gamddefnyddio sylweddau ymhlith pobl ifanc).

Mae mabwysiadu ymagwedd cylch bywyd cyfan tuag at yr amcan hwn yn gadarnhaol, oherwydd gallai rhoi cychwyn iach i blant mewn bywyd ac annog rhieni i wneud dewisiadau iach eich helpu fel BGC i sefydlu'r achosion sydd wrth wraidd problemau a gweithredu arnynt. O'r un pwysigrwydd, gall deall profiadau pobl sydd wedi dioddef trawma yn eu bywydau drwy annog ymgyfraniad plant a'u teuluoedd wrth lunio gwasanaethau eich helpu i ddeall pobl a'r materion sy'n rhan o'u bywydau mewn dull holistig, yn hytrach nag fel 'claf iechyd meddwl', neu 'un sy'n camddefnyddio sylweddau'.

Gwelir beichiogrwydd a blynyddoedd cynnar bywyd yn aml fel 'mater iechyd' ond buaswn yn eich cynghori i gymryd camau ar unwaith tuag integreiddio gwasanaethau yn well, cyd-leoli timau, crynhoi adnoddau a gweithio mewn ffordd sy'n gwneud synnwyr i'r gymuned honno. Buaswn yn eich cynghori i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar y 1000 diwrnod cyntaf o fywyd plentyn a'r manteision y gellid eu sylweddoli drwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar i benderfynu pa gamau y gallwch eu cymryd yn awr i wella llesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu 'Canolfan Iechyd a Chynaliadwyedd' i gyd-drefnu eu gwaith hwy eu hunain o amgylch y Ddeddf a, thrwy eich cynrychiolydd BGC, gallai cysylltu â'r tîm cenedlaethol am fwy o dystiolaeth a gwybodaeth fod yn fanteisiol i chi.

Nid eich cyfrifoldeb chi yn unig yw galluogi pobl i gael cychwyn iach mewn bywyd, ond cyfrifoldeb y teuluoedd lle mae plant yn tyfu i fyny a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt, yn ogystal â'r teuluoedd y maent hwy eu hunain wedyn yn rhoi cychwyn iddynt. Felly, wrth ystyried pa gamau y gallech eu cymryd, gallai gwaith y Sefydliad Economeg Newydd ar fuddsoddi mewn plant fod yn ddefnyddiol, gan ei fod yn amlygu'r angen i fynd i'r afael â llesiant materol a hefyd amgylchiadau allanol – megis tai, tloedi ac addysg – yn ogystal â llesiant seicolegol ac adnoddau mewnol.

Rwyf wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant, i gynhyrchu pecyn cymorth ar fabwysiadu ymagwedd hawliau'r plentyn tuag at facsimeiddio cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r pecyn cymorth yn cael ei ddatblygu a'i brofi a bydd ar gael cyn bo hir. Byddai swyddfa'r Comisiynydd yn hapus i roi cyngor ar ymgysylltu â phlant a phobl ifanc a mabwysiadu ymagwedd wedi ei chanoli ar y plentyn. Hefyd, yn ddiweddar, gweithiodd Alyson Francis, Cyfarwyddwr Canolfan Cymorth Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod,



gyda fy swyddfa i ysgrifennu atoch i amlinellu'r gwaith a wneir gan y Ganolfan a chynnig cymorth i'r BGCau i droi gwybodaeth a pholisi'n arfer. Gallai'r Ganolfan hefyd weithredu fel man canolog lle gall BGCau rannu arfer, gan fod pob un o'r BGCau yng Nghymru, bron, wedi trafod y blynyddoedd cynnar, a phlant â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn eu hamcanion a'u camau drafft. Rydym yn gweithio gyda'r [Gyfnwidfa Arfer Da i redeg gweminar ar ddealltwriaeth o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ar y 7fed Tachwedd](#), a allai fod o fudd i chi wrth i chi ystyried eich camau ar gyfer yr amcan hwn.

Fel gwasanaethau cyhoeddus, rydym yn aml yn trin *symptomau* Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, megis salwch meddwl, camddefnyddio sylweddau a chamdriniaeth ddomestig, yn hytrach na'r *achosion* sydd wrth wraidd y problemau hyn. Fel y nodwch yn eich asesiad llesiant, mae cyfraddau iechyd meddwl gwael a hunanladdiad yn uchel yn Wrecsam. Roedd mynediad i wasanaethau iechyd meddwl yn rhywbeth a nodwyd gan bob grŵp y buoch yn siarad â hwynt, ac mae'r cysylltiadau â chamddefnyddio sylweddau, trosedd ac anghenion tai, yn cael eu nodi'n glir drwy gydol eich asesiad. Roedd Senedd yr Ifanc yn hynod anhapus â'r gwasanaethau iechyd meddwl a chwnsela yr oeddent wedi eu derbyn; cafodd mynediad i wasanaethau ei amlygu mewn gwahanol ffyrdd gan breswylwyr yn Wrecsam a nododd pobl ifanc yr angen am fwy o gymorth i'r bobl ifanc hynny sy'n delio â hunan-niweidio. Roedd llawer o'ch ymgysylltu yn ystod yr asesiad yn ymwneud â'r hyn yr oedd pobl yn ei feddwl o wasanaethau cyhoeddus. Ar y pryd, gelwais am fwy o ddadansoddiad o beth a olygir gan hyn, p'un a oedd themâu arbennig yn berthnasol i ardaloedd arbennig; pa fylchau mewn dealltwriaeth oedd gennych a beth fyddid yn ei wneud fel canlyniad. Disgwyliaf weld yr wybodaeth hon yn cael ei harchwilio a'i defnyddio yn ystod y flwyddyn sy'n dod i drwytho eich camau. Mae delio â Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod yn ymwneud llawn cymaint â chael gwasanaeth cyhoeddus sy'n ymwybodol o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac adnabod ble mae Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi digwydd ag y mae â gwneud yn siŵr bod gwasanaethau a gyrchir gan deuluoedd yn integredig. Yn y camau a gymerir gennych, mae'n bwysig i adolygu mentrau sy'n ffocysu ar iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, tai, gwasanaethau ac eraill, i sicrhau eu bod yn ataliol, yn gydgyssylltiedig ac yn ceisio ymroi o ddirif i wella sefyllfaoedd ar gyfer teuluoedd ac ar gyfer rhieni'r dyfodol er mwyn atal y cylch rhag parhau i mewn i'r genhedlaeth nesaf.

Mae oddeutu 50% o bobl â phroblemau iechyd meddwl parhaus yn dangos symptomau erbyn iddynt gyrraedd 14 mlwydd oed, a llawer pan fyddant yn llawer ieuengach. Os ydy'r symptomau'n bodoli pan fydd plentyn mor ifanc, beth ellir ei wneud i atal problemau nes ymlaen mewn bywyd? Os gwyddom fod y GIG ar gyfartaledd yn gwario dros £21 miliwn ar bresgripsiynau gwrth-iselder, sut fedrwn ni weithredu'n gynt? Mae adroddiad newydd oddi wrth Respublica a Barnado: "[Making young minds matter](#)" yn amlinellu ymyriadau cynnar (megis chwnsela yn yr ysgol yng Nghymru) a fedr gael effaith cadarnhaol ar iechyd meddwl. Buaswn yn eich cynghori i ennyn ymgyfraniad plant a phobl ifanc yn y broses o ddeall unrhyw faterion sy'n ymwneud â chyrchu'r gofal a'r cymorth priodol, dylunio gwahanol wasanaethau a gwerthuso effeithiau'r ymagwedd hon. Dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl fedrwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae'r astudiaethau achos a [gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan Locality](#) yn dangos y costau ariannol a chymdeithasol sy'n deillio o beidio mabwysiadu'r ymagwedd holistig ac ataliol hon.

Nododd eich asesiad llesiant bod anghydraddoldebau iechyd yn eich poblogaeth a thueddiadau hirdymor yn ardal Wrecsam, fel yn y rhan fwyaf o Gymru, yn awgrymu bod lefelau iechyd yn debygol o waethygu. Awgryma

tystiolaeth bod galluogi pobl i wneud dewisiadau iach yn gysylltiedig â'u statws economaidd, eu hamgylchedd a'r modd y maent yn cysylltu ag eraill. Bydd cydweithio gyda'r 'rhai anarferol' ac ennyn ymgyfraniad pobl yn y modd yr ydych yn cymryd camau i gwrdd â'r amcan hwn yn eich galluogi i facsimeiddio eich cyfraniad i'r saith nod llesiant. Er enghraifft, beth yw rôl diwylliant mewn galluogi plant ac oedolion i fyw bywydau iachach? Sut fedrai pobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i helpu i reoli eu hiechyd? Mae [strategaeth Cyngor Celfyddydau Cymru'n](#) amlinellu rhai o'r manteision i'r boblogaeth sy'n deillio o gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol ac mae'r [Rhaglen Comisiynu Diwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr](#) yn ymroi i helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus i ddeall sut y gallant wella canlyniadau drwy integreiddio celfyddyd a gweithgareddau diwylliannol i ystod o wasanaethau, yn cynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu seiliedig ar le.

Mae mynediad i'r amgylchedd naturiol a'r parciau gwledig yn Wrecsam yn bwysig ar gyfer galluogi pobl i fod yn weithgar yn gorfforol. Mae'r prosiect [Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru](#) wedi dangos yr ystod o effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant sy'n deillio o gerdded yn aml yn yr amgylchedd naturiol, mewn grŵp. Mae gan yr ardal saith parc gwledig a dwy warchodfa natur sydd angen eu gwarchod; sut fedr mentrau fel Coed Actif gael eu hehangu a gweithio gyda gwasanaethau iechyd yn yr ardal i gael llawer o ganlyniadau cadarnhaol? Fel y cyfryw, gall modelau presgreibio cymdeithasol gael llawer o fanteision, megis cymryd rhan mewn dosbarthiadau ymarfer corff a fedr leihau arwahanrwydd cymdeithasol ymhlith pobl hŷn, yn ogystal â helpu i'w hatal rhag syrthio. Mae'r [astudiaeth hon ar bresgreibio cymdeithasol ym Mryste](#), yn rhoi gwybodaeth ar wahanol fodolau ac mae'n rhoi peth mewnwelediad i'r gwelliannau mewn iechyd meddwl ac iechyd yn gyffredinol. Dangosodd rhaglen ddogfen ddiweddar y BBC ['The doctor who gave up drugs'](#), sawl enghraifft o'r modd y gall ymagwedd amgen tuag at bresgreibio tabledi gael effaith fwy holistig, cadarnhaol sy'n para am amser hir, ar fywyd rhywun – gyda phobl yn dod yn fwy ffit yn gorfforol ac yn fwy iach yn feddyliol heb ddibynnu ar bresgripsiynau.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn ymgyfrannu'n unig mewn rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt hwy, eu teulu neu'r man lle maent yn treulio amser. Canmolais eich asesiad llesiant am ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau; bydd adeiladu ar yr wybodaeth hon yn eich helpu i ddeall asedau, cyfleoedd a rhwystrau pobl sy'n helpu eu hunain, ac yn gwella eu hamgylchedd. Mae'r [astudiaeth 'Lle Dwf'n' yng Nghanolfan Adfywio Rhagoriaeth Cymru yn Nhredegar](#) yn rhoi dystiolaeth o'r modd y mae dealltwriaeth o le yn medru cael llawer o fanteision. Yn aml, mae pobl sy'n ymgyfrannu mewn rhywbeth sydd o bwys iddynt yn arwain at ganlyniadau llawer mwy – fel y dangosir gan y gwaith a wneir gan ['Datblygu Cymuned' sy'n ymwneud â Datblygu Cymuned sy'n seiliedig ar Asedau](#).

Mae peth o hwn yn ymwneud ag annog newid ymddygiad yn eich poblogaeth, sydd yn ôl llawer o adroddiadau'n 'glynu' pan fydd pobl yn ymgyfrannu mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol gyda'i gilydd; er enghraifft, darganfu'r adroddiad [Nudjed 'Behaviour Change is a Team Sport'](#) bod cael pobl at ei gilydd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae eu gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng Nghymoedd De Cymru i ennyn eu hymgyfraniad mewn gweithgaredd mwy corfforol. Eto, mae hwn yn gyfle i wella mynediad i weithgareddau diwylliannol a hybu treftadaeth, defnyddio'r iaith Gymraeg ac annog pobl i ddod at ei gilydd o gwmpas achos lleol. Buaswn yn cynghori'r BGC i ddarganfod ac ennyn ymgyfraniad y rhwydweithiau presennol hyn, adeiladu ar eu llwyddiannau, ac annog actifyddion cymunedol sy'n bodoli eisoes. Yn hyn o beth, dylech ystyried pa rôl y mae'ch Cynghorau Cymuned yn chwarae wrth gymryd camau i'ch helpu chi.



Mae llawer o FGCau wedi rhannu gyda fy nhîm eu hamcanion drafft neu flaenoriaethau sy'n berthnasol i blant yn cael cychwyn da mewn bywyd a chanlyniadau iechyd. Efallai y byddwch yn dymuno cysylltu ag ardaloedd BGCau eraill sy'n ystyried amcanion drafft tebyg, megis Pen-y-bont ar Ogwr, Sir Fynwy, Ynys Môn a Gwynedd; a Sir Gaerfyrddin.

**Pob un yn cael cyfle i ddysgu a datblygu drwy gydol eu bywydau:**

- **Gwella lefelau cyrhaeddiad plant a phobl ifanc;**
- **Sicrhau bod cymorth addas ar gael i alluogi pobl i gyrchu cyfleoedd dysgu.**

Fel mae eich asesiad llesiant yn nodi, gallai gwella cyfleoedd dysgu, cyflawni a datblygu gael effeithiau cadarnhaol ar agweddau eraill o fywydau pobl yn Wrecsam. Ni fydd ein hymagwedd bresennol tuag at ddatblygu sgiliau yn cyflawni'r sylfaen wybodaeth a fydd ei hangen ar genedlaethau'r dyfodol mewn Cymru lewyrchus. Yn y dyfodol, bydd ar bobl angen set wahanol o sgiliau i fedru ymaddasu o fewn eu swyddi ac, mae'n debygol y bydd yna lai o swyddi, felly os ydyw pobl i ffynnu, bydd angen gwahanol fath o economi.

Fel y nodwyd gan eich asesiad llesiant, mae yna bocedi o amddifadedd yn eich sir a bwlch arwyddocaol rhwng cyrhaeddiad y rhai sy'n derbyn prydau bwyd am ddim yn yr ysgol a'r rhai nad ydynt. Tra bo darparu cyfleoedd i bobl ddysgu a datblygu'n beth da, galluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd hyn yw'r peth pwysicaf. Felly, buaswn yn eich cynghori i dwrio'n ddyfnach i'r data yn y fan hon a deall yn llwyr yr hyn sy'n achosi methiant i gyflawni lefelau cyrhaeddiad mewn da bryd, cyn gosod camau i ddysgu sut y gallwch gwrdd â'r amcan drafft hwn. Gofynnwch i chi eich hunain, beth fyddai, o ddifrif, yn gwneud gwahaniaeth i ddysgu a datblygu ymhlith pobl Wrecsam drwy gydol eu bywydau? Beth arall sy'n effeithio ar gyfleoedd bywydau pobl, y gallwch chi, fel gwasanaeth cyhoeddus ei atal?

Gallai astudiaeth a wnaed yn Newcastle fod o ddiddordeb i chi yn hyn o beth. Sefydliad ddim-am-elw yw [Social Finance](#) sy'n arbenigo mewn dadansoddiad trwyadl ac sy'n edrych ar elw cymdeithasol buddsoddiad; cawsant eu comisiynu gan Gyngor Dinas Newcastle i dwrio'n ddyfnach i'w helpu i fynd i'r afael â'r broblem NEET (Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant). Tra bo ffocws traddodiadol yn edrych ar gyraeddiadau TGAU, yr hyn a ddengys y dadansoddiad hwn yw nad cyflawniadau academaidd mewn gwirionedd yw'r ffactor mwyaf arwyddocaol o bell ffordd, gan ddangos yn hytrach bod 67% o rai rhwng 17-19 mlwydd oed nad oedd mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant, wedi dod o'r 25% o rai rhwng 17 - 19 mlwydd oed, a oedd, yn ystod eu plentyndod, wedi cael cysylltiad nifer o weithiau â'r gwasanaethau cyhoeddus. Dangosodd yr ymchwil bod y rhai oedd wedi cael cyn lleied â chwe rhyng-gysylltiad â'r gwasanaethau cyhoeddus wedi treulio tair gwaith gymaint o amser allan o addysg neu hyfforddiant. Sut fedr pobl ymgysylltu â chyfleoedd dysgu yn y dyfodol? Mae'r model presennol o fynychu amgylchedd dosbarth yn annhebygol o barhau, gyda dysgu ar-lein yn dod yn fwy a mwy poblogaidd ac ymchwil yn dangos bod plant rhwng 5 a 16 mlwydd oed yn gwario, ar gyfartaledd, chwe awr a hanner o flaen sgrin a [28% o bobl ifanc](#) yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol fel eu prif ffynhonnell newyddion. Pa fath o newidiadau y bydd angen i chi eu gwneud i'ch systemau a'ch polisiau sefydliadol i alluogi gwell dysgu a datblygu o bell?

Buaswn hefyd yn eich cynghori i edrych ar y dylanwad y gallech ei gael fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus yn y meysydd hyn ar draws y saith nod llesiant cenedlaethol. Er enghraifft, pa gyfleoedd dysgu a chyflogaeth fedrwch chi eu cynnig, megis cynlluniau prentisiaeth cydweithredol, i bobl leol sy'n byw ymhell o'r farchnad swyddi? Sut fedrwch chi annog dysgu a swyddi yn yr economi sylfaenol, mewn perthynas â gofal lleol, manwerthu a'r diwydiant bwyd? Mae [adroddiad diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree](#)'n amlinellu gwerth yr economi cymdeithasol wrth greu swyddi, cryfhau sgiliau a chyflogadwyedd.

Yn yr un modd, mae'n ofynnol i'r amcan drafft hwn gydweithio gyda nifer o bartneriaid nad ydynt, efallai, yn ymgyfrannu ar hyn o bryd yng ngwaith eich BGC. Rwyf yn ymwybodol bod Prifysgol Glyndŵr wedi cymryd rôl arweiniol yn yr amcan hwn a buaswn yn annog cydweithrediad gyda sefydliadau addysg uwch eraill a gweithio'n agos gyda Choleg Cambria - yn ogystal ag ymroi i weithio gyda busnesau preifat yn yr ardal. Mae meddwl am yr hirdymor, pa sgiliau sydd eu hangen ar ein myfyrwyr yn awr i'w galluogi i ymdopi â'r dyfodol. Gallaf weld bod cyflawni diploma uwch i fyfyrwyr yn Wrecsam sy'n ymgymryd â Bagloriaeth Cymru dros 7% yn uwch eleni. Mae'r cymhwyster yn rhoi cyfleoedd i wirfoddoli ac ennill sgiliau bywyd; sut y gellir addasu hyn fel y gellir ei gysylltu â mentrau cymunedol?

Mae'r [adroddiad Dyfodol Gwaith](#) yn awgrymu y bydd creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys-problemau yn llawer pwysicach yn y dyfodol na gwybodaeth benodol, gyda mwy o waith yn seiliedig ar brosiectau, yn hytrach na chyflogaeth osodedig. Hefyd, mae'r adroddiad yn rhagweld y bydd 65% o'r plant sydd yn awr yn cychwyn yr ysgol yn gwneud swyddi nad ydynt hyd yn oed yn bodoli ar hyn o bryd. [Ac yn ôl McKinsey](#), gallai technoleg awtomeiddio 45% o'r tasgau y mae pobl yn cael eu talu i'w gwneud ar hyn o bryd. Pa gyfrifoldebau cymdeithasol sydd wedi eu mabwysiadu gan y sector preifat yn yr ardal? A ellir cyfeirio'r rhain tuag at gymunedau mwy amddifad? Sut mae busnesau'n dod at ei gilydd i sbarduno newid cadarnhaol, hirdymor?

Gwneuthum sylw ar eich asesiad llesiant yn nodi y gellid gwneud cysylltiadau rhanbarthol helaethach â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Ar gyfer yr amcan hwn, mae cysylltiadau rhanbarthol a chysylltiadau ar draws y ffin yn hollbwysig a byddaf yn edrych am gydnabyddiaeth o hyn yn eich cynllun llesiant. Sut mae gwaith y Bwrdd hwn yn integreiddio gyda gwaith y BGC? Rhaid i'r Bwrdd gynhyrchu cynllun sgiliau a chyflogaeth ranbarthol; buaswn yn eich annog bod gwerth y Bwrdd hwn nid yn ymwneud yn unig â thwf economaidd ond â datblygu patrymau cyflogaeth a gwaith sy'n addas ar gyfer y dyfodol, gan fuddsoddi yng nghymunedau mwyaf amddifad yr ardal i annog sgiliau mewn technoleg, creadigrwydd a datrys problemau i dorri patrymau tlodi sy'n pontio cenedlaethau. Mae eich asesiad llesiant hefyd yn nodi bod oddeutu chwarter o weithwyr yn cymudo o'r tu allan i Wrecsam, yn ogystal ag amlygu patrwm cymhleth o gymudo mewn ac allan, fel sir ar y ffin. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i gydweithio gyda gwahanol bartneriaid i alluogi pobl i gyrchu gwahanol gyfleoedd tu allan i'r sir.

Wrth ymdrin â'r fath fater cymhleth, mae integreiddiad ar draws y saith nod llesiant yn arbennig o bwysig wrth ystyried sut yr ydych yn cymryd camau i gwrdd â'r amcan drafft hwn a gallai eich helpu i feddwl am ymagweddau amgen tuag at dyfu sgiliau a'r economi. Er enghraifft yn [adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru](#) ar seilwaith gwyrdd, archwiliwyd y cysylltiadau rhwng seilwaith gwyrdd a thwf economaidd, gan bwysleisio ei fod yn denu buddsoddi mewnol, yn creu cyfleoedd twristiaeth ac yn cynyddu gwariant twristiaid. Gwnaeth Llwybr Arfordirol Cymru, er enghraifft, ddenu bron i dair miliwn o ymwelwyr ac roedd yn werth, amcangyfrifwyd,

£16 miliwn i economi Cymru rhwng 2011 a 2012. Hefyd, mae'r manteision i iechyd o fyw gyda golygfa o fannau agored gwyrdd yn werth £300 y person y flwyddyn. Nodwyd yn eich asesiad llesiant bod twristiaeth yn tyfu yn yr ardal a bod yr asedau amgylcheddol yn rhoi cyfle i dyfu twristiaeth i gadw sgiliau pobl ifanc yn yr ardal. Mae'r erthygl hon gan [Fforwm Economaidd y Byd](#) yn awgrymu bod mentrau cymunedol sy'n annog twristiaeth yn yr ardal yn rhoi synnwyr o falchder a pherchnogaeth i bobl ifanc, wrth iddynt ddweud wrth eraill am eu treftadaeth a chychwyn busnesau ar raddfa fach sy'n elwa o dwristiaeth.

Sut allech chi ddarparu cyfleoedd datblygu sgiliau a dysgu tra'n adeiladu ar asedau diwylliannol eich ardal? Yn aml, mae cael pobl i ymgyfrannu mewn dysgu sgil newydd yn cael ei wireddu drwy weithgaredd diwylliannol; gyda chymaint o gyfleoedd yn yr ardal, drwy sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch a phrosiect newydd Oriol Wrecsam, sut fedrech chi weithio gyda'ch gilydd i fuddsoddi yn hyn? Yn yr un modd, mae rhai rhannau o'r wlad yn mwynhau lefelau uchel o siaradwyr Cymraeg, sgil i'w dathlu a'u thyfu ar draws Cymru. Pa gyfleoedd sydd ar gael i chi gydweithio ag eraill i dyfu ac annog y defnydd o'r iaith, i ddatblygu sgiliau a dysgu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol? Gallai tîm Comisiynydd yr Iaith Gymraeg a chyrrff cenedlaethol, megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru a'r Llyfrgell Genedlaethol roi i chi rai syniadau am y modd y gallech gymryd camau i wneud hyn.

BGCau eraill sy'n ystyried amcanion drafft tebyg ym meysydd tyfu sgiliau, galluogi pobl i gyrchu cyfleoedd a chyrraedd eu potensial yw Ceredigion, Casnewydd a Phowys.

**Gobeithiaf eich bod o'r farn fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi wrth i chi symud ymlaen i gyhoeddi eich cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Os gwelwch yn dda cysylltwch â fy nhîm os yr ydych angen manylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw un o'r sefydliadau a'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.**

Rwyf hefyd yn dysgu'r ffordd orau o gynghori, cynorthwyo a monitro sut mae cyrrff cyhoeddus yn ceisio defnyddio'r pum dull o weithio a macsimeiddio'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly buaswn yn croesawu adborth oddi wrthydych chi, eich swyddogion cynorthwyol a Phwyllgor Craffu BGC Wrecsam ar sut yr wyf wedi dewis mynd ati i ymdrin â'r ddyletswydd statudol hon a'r cyngor yr wyf wedi ei roi.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft ac os gwelwch yn dda cadwch mewn cysylltiad â mi a fy nhîm.

Dymuniadau gorau,



Sophie Howe